

**Uwchraddio'r Grid**

Cyswllt Gorllewinol 2

nationalgrid

# Ein hymgynghoriad Cam 1

## Feedback form

Mehefin 2026

### Rydyn ni'n ymgynghori ar gynigion i adeiladu cysylltiad trydan Cerrynt Uniongyrchol Foltedd Uchel (HVDC) rhwng Yr Alban a Chymru. Isadeiledd alltraeth fydd yn bennaf, gydag isadeiledd cysylltiedig ar y tir. Dyma ein hymgynghoriad Cam 1 ar ein cynigion cynnar ar gyfer Cyswllt Gorllewinol 2.

**Rydyn ni'n gofyn am adborth gan gymunedau lleol, eu cynrychiolwyr a rhanddeiliaid allweddol yn gynnar yn y broses o ddatblygu'r prosiect i sicrhau bod adborth a gwybodaeth leol yn dylanwadu ar ein cynlluniau wrth iddynt barhau i gael eu datblygu.**

Rydym yn awyddus i weithio'n agos gyda chymunedau lleol, eu cynrychiolwyr, a rhanddeiliaid allweddol er mwyn gallu deall ardal y prosiect yn well. Bydd hyn yn ein helpu i leihau'r effeithiau i'r graddau y bo modd, ynghyd â chynyddu buddion i gymunedau lleol.

Ar ôl i'r ymgynghoriad hwn ddod i ben, byddwn yn ystyried yr holl adborth yn ofalus. Bydd yr adborth hwnnw, ochr yn ochr ag asesiadau technegol ac arolygon amgylcheddol, yn ein helpu i fireinio ein cynigion.

Yna, byddwn yn cynnal ail ymgynghoriad – sef ymgynghoriad Cam 2 statudol - lle byddwn yn cyflwyno cynigion mwy datblygedig cyn gwneud cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer y prosiect.

**Diolch am roi o'ch amser i lenwi'r ffurflen adborth hon.**

Mae'r ymgynghoriad Cam 1 hwn ar agor rhwng **12.00yp ar ddydd Mawrth 23 Mehefin ac 11:59yh nos Fawrth 21 Gorffennaf 2026.**

**Yn ystod yr ymgynghoriad Cam 1 hwn, rydyn ni'n gofyn am eich barn ar ein dyluniad sy'n cael ei ddatblygu ar gyfer y prosiect, a'r hyn yr hoffech i ni ei ystyried wrth i ni ddatblygu ein cynigion ymhellach.**

# Ein cynigion

## Mae'r prosiect yn cael ei ddatblygu ar y cyd gan National Grid Electricity Transmission (National Grid) a Scottish Power Energy Networks (SP Energy Networks), gyda'r ddau'n arwain gwahanol elfennau o'r prosiect.

**Mae cynigion National Grid yn cynnwys y prif elfennau canlynol:**

- oddeutu 195 cilometr o gebl HVDC alltraeth newydd, a fydd yn dechrau wrth derfyn deheuol moroedd tiriogaethol yr Alban, hyd at derfyn moroedd tiriogaethol Cymru
- oddeutu 65 cilomedr o gebl HVDC agos i'r lan newydd, wrth iddo gyrraedd moroedd tiriogaethol Cymru i fae cyswllt trosglwyddo tanddaearol newydd ar lanfa a leolir ar arfordir Gwynedd, ym Mae Caernarfon
- bae cyswllt trosglwyddo tanddaearol newydd mewn lleoliad ar arfordir Gwynedd, ym Mae Caernarfon, lle bydd y cebl HVDE morol newydd yn cysylltu â'r cebl HVDC newydd ar y tir
- tri opsiwn ar gyfer glanfa bosibl ar arfordir Gwynedd (gydag un opsiwn a ffefrir yn cael ei adnabod)
- llwybr cebl HVDC tanddaearol newydd, oddeutu 25 cilometr o hyd, o lanfa a leolir ar arfordir Gwynedd i orsaf trawsnewid newydd (a gyflwynir fel 'ardal graddoledig' gyda'r ardal dywyllach yn dangos ein opsiwn a ffefrir ar gyfer llwybr y cebl)
- dau opsiwn ar gyfer lleoli gorsaf trawsnewid newydd wrth ymyl yr isorsaf bresennol ym Mhentir (gyda'r opsiwn a ffefrir ym mharth Dwyrain Pentir), yn cynnwys darn byr newydd o gysylltiad cebl tanddaearol HVAC o'r orsaf trawsnewid i'r is-orsaf bresennol ym Mhentir
- estyniad newydd i'r is-orsaf bresennol ym Mhentir, fel y gellir cysylltu Cyswllt Gorllewinol 2 â rhwydwaith trawsyrru presennol Cymru.

**Ar gyfer yr ymgynghoriad hwn, gofynnwn i chi fynegi eich safbwyntiau ar elfennau alltraeth, ger y lan ac ar diroedd y prosiect sy'n rhan o diriogaeth Cymru. SP Energy Networks sy'n gyfrifol am yr elfennau sy'n ymwneud a'r Alban, a caiff y llwybr arfaethedig a fynegir ganddi ei ynghynghori ar yn ystod Tachwedd 2025.**

# Rhagor o wybodaeth

Fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, rydyn ni wedi cyhoeddi'r deunyddiau ymgynghori canlynol. Rydyn ni'n eich annog i roi adborth ar ôl adolygu ein deunyddiau ymgynghori;

**Ddogfen ymgynghoriad Cam 1:** sy'n amlinellu ein cynigion a chefndir y cynigion hynny, ynghyd â gwybodaeth am ble i gael rhagor o wybodaeth a sut i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad.

**Cylchlythyr cymunedol:** sy'n crynhoi manylion y prosiect Cyswllt Gorllewinol 2 a'n hymgynghoriad cyhoeddus.

**Strategaeth ymgynghori:** sy'n amlinellu ein dull gweithredu ar gyfer yr ymgynghoriad Cam 1 hwn.

Fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, rydyn ni wedi cyhoeddi'r deunyddiau technegol ategol canlynol hefyd;

**Adroddiad Opsiynau Strategol (SOR):** sy'n egluro'r achos angen ar gyfer y prosiect, yr opsiynau strategol gafodd eu hystyried, a'r opsiwn strategol sydd wedi'i gynnig, fel sail ar gyfer datblygu'r prosiect ymhellach.

***Marine Corridor Preliminary Routeing and Siting Study (MCPRSS):*** sy'n darparu gwybodaeth fanwl am gydrannau Cyswllt Gorllewinol 2 gan gynnwys y dull arfarnu opsiynau, yr opsiynau lleoli a llwybro gafodd eu hasesu, a'n hopsiynau arfaethedig. Mae hyn wedi'i ategu gan grynodeb sy'n egluro newidiadau'r prosiect o ddrafftio'r CPRSS i'r wybodaeth sy'n cael ei chyflwyno yn yr ymgynghoriad hwn.

**Crynodeb o'r Opsiynau Lleoli a Llwybro Glanfa a Tirol:** sy'n darparu crynodeb o'r opsiynau lleoli a llwybro.

**Nodiadau pontio am ddogfennau TCPRSS a MCPRSS:** sy'n darparu rhagor o wybodaeth am ddatblygu opsiynau lleoli a llwybro.

***Terrestrial Corridor Preliminary Routeing and Siting Study (TCPRSS):*** sy'n darparu gwybodaeth fanwl am elfennau Cyswllt Gorllewinol 2 gan gynnwys y dull arfarnu opsiynau, yr opsiynau llwybro a lleoli gafodd eu hasesu, a'n hopsiynau arfaethedig. Mae hyn wedi'i ategu gan grynodeb sy'n egluro newidiadau'r prosiect o ddrafftio'r CPRSS i'r wybodaeth sy'n cael ei chyflwyno yn yr ymgynghoriad hwn.

**Mae holl ddeunyddiau'r ymgynghoriad yn cael eu cyhoeddi ar wefan y prosiect: nationalgrid.com/westernlink2**

Bydd copïau caled o'r holl ddogfennau uchod ar gael yn ein digwyddiadau gwybodaeth wyneb yn wyneb.

Bydd ddogfennau ymgynghori allweddol ar gael mewn mannau gwybodaeth lleol hefyd. Mae manylion ar gael ar wefan y prosiect, yn ein ddogfen ymgynghoriad Cam 1, ein cylchlythyr cymunedol a'n strategaeth ymgynghori Cam 1.

Os hoffech chi gael copïau caled o'r ddogfennau ymgynghori neu os oes eu hangen arnoch mewn fformat arall, cysylltwch drwy un o'r sianeli ar dudalen 26. (Nodir y gallai costau argraffu fod yn berthnasol).

# Sut mae rhoi adborth

## Cyflwynwch eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn erbyn 11:59yh nos Fawrth 21 Gorffennaf 2026. Ni allwn sicrhau y bydd ymatebion sy'n cyrraedd ar ôl yr amser hwn yn cael eu hystyried.

**Mae croeso i chi ateb pob cwestiwn neu rai o'r cwestiynau ar y ffurflen adborth hon. Nid oes angen ateb pob cwestiwn os nad ydych chi'n dymuno gwneud hynny.**

Mae gwybodaeth leol yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o ddatblygu ein cynigion. Rydyn ni'n awyddus i weithio gyda chymunedau lleol, eu cynrychiolwyr a rhanddeiliaid allweddol i ddeall yr ardaloedd o amgylch y prosiect yn llawn. Bydd hyn yn helpu i sicrhau ein bod yn gallu lleihau'r effaith cymaint â phosib a chynyddu'r manteision i gymunedau lleol.

Bydd eich adborth yn cyfrannu'n helaeth at y gwaith o lunio ein cynlluniau. Yn dilyn yr ymgynghoriad Cam 1 hwn, byddwn yn adolygu'r adborth a gafwyd ochr yn ochr ag asesiadau technegol ac arolygon amgylcheddol, a fydd yn helpu i fireinio ein cynigion. Wedyn yn 2027 byddwn yn cynnal ail ymgynghoriad, Cam 2, lle byddwn yn cyflwyno ein cynigion mwy datblygedig ar gyfer Cyswllt Gorllewinol 2. Bydd yr ymgynghoriad Cam 2 hwn yn cael ei gynnal cyn gwneud cais cynllunio ar gyfer y prosiect.

Mae ffurflenni adborth a phecynnau ymgynghori ar gael yn yn y Gymraeg a Saesneg.

## Gallwch gyflwyno eich adborth yn y ffyrdd canlynol:

**Wyneb yn wyneb:** rhowch eich ffurflen i aelod o'r tîm neu ei rhoi yn y blwch ffurflenni adborth yn un o'n digwyddiadau ymgynghori wyneb yn wyneb. Mae rhagor o wybodaeth am ein digwyddiadau gwybodaeth wyneb yn wyneb ar gael yn **nationalgrid.com/westernlink2**

**E-bost:** anfonwch gopi o'ch ffurflen wedi'i llenwi i **WesternLink2@nationalgrid.com**

**Ffurflen Adborth Ar-lein:** llenwch ein ffurflen adborth ar-lein ar wefan ein prosiect **nationalgrid.com/westernlink2**

**Post:** anfonwch gopi o'ch ffurflen wedi'i llenwi i'n cyfeiriad rhadbost, **FREEPOST W LINK 2**

Rhaid i'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad gyrraedd cyn i'r ymgynghoriad ddod i ben. Bydd ymatebion drwy'r post yn cael eu derbyn hyd at wythnos ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben os ydynt wedi cael eu postio yn ystod y cyfnod ymgynghori.

**Mae croeso i chi roi adborth yn Gymraeg neu yn Saesneg.**

Os nad ydych chi'n gallu rhoi adborth ar-lein, dros e-bost neu drwy'r post, neu os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am roi adborth, cysylltwch â ni drwy ffonio **0800 156 0706.**

# Cyflwyno ein cynigion

## Er mwyn eich helpu i roi adborth, rydyn ni wedi cynhyrchu cyfres o fapiau sy'n dangos:

### Y coridor sy'n cael ei ffafrio ar hyn o bryd

Mae'r coridor sy'n cael ei ffafrio yn ardal lle byddai modd. lleoli seilwaith ar gyfer Cyswllt Gorllewinol 2. Yn y coridor, rydyn ni wedi defnyddio ardal raddedig i ddangos lle mae seilwaith yn fwy neu'n llai tebygol o gael ei leoli.

### Ardal raddedig

Mae ardal raddedig yn dangos ardal eang lle byddai modd lleoli ein seilwaith yn hytrach na dangos un llwybr neu safle sefydlog.

Nid dyluniad terfynol yw'r ardal raddedig. Mae'n gynnar, yn ddangosol ac yn eang, a bydd yn cael ei mireinio wrth i ni gynnal rhagor o asesiadau technegol ac amgylcheddol, arolygon, ac wrth i ni ystyried adborth gan gymunedau a rhanddeiliaid allweddol.

Mae'r graddliwio'n dangos pa mor debygol yw hi y byddai seilwaith fel lleoliadau glanfa, llwybrau ceblaua a safleoedd am yr orsaf trawsnewid yn cael ei leoli mewn gwahanol rannau o'r ardal honno, ar sail y gwaith rydyn ni wedi'i wneud hyd yma.

1. Mae'r graddliwio tywyllach yn dangos ardaloedd lle mae'r seilwaith yn fwy tebygol o gael ei leoli
2. Mae'r graddliwio goleuach yn dangos ardaloedd lle mae'n llai tebygol o gael ei leoli

**Ni fydd angen yr holl ardal sydd wedi'i lliwio ar gyfer Cyswllt Gorllewinol 2.**

### Parthau lleoli

Mae parth lleoli yn ardal fawr o dir yn ardal yr astudiaeth lle byddai modd lleoli'r orsaf trawsnewid a'r seilwaith ategol.

### Strwythur y ffurflen adborth

Rydyn ni wedi rhannu ein cynigion yn adrannau i'w gwneud hi'n haws adolygu a rhoi adborth. Mae pob adran o'r ffurflen adborth yn cynnwys disgrifiad o'r seilwaith rydyn ni'n ei gynnig yn yr ardal, a map o'r cynnig.

**Adran 1 y llwybr:**
Bae Caernarfon – Lleoliad glanfa

**Adran 2 y llwybr:**
Bae Caernarfon i Bontnewydd – llwybr ceblau

**Adran 3 y llwybr:**
Bontnewydd i Bentir – llwybr ceblau

**Adran 4 y llwybr:**
Pentir – Parthau lleoli'r orsaf trawsnewid a pharth estyniad is-orsaf bresennol Pentir

Rydyn ni hefyd wedi cynnwys cwestiynau am ein cynigion ger y lan ac ar y môr ar dudalennau 9 a 10.




Sources: Map data © OpenStreetMap contributors, Microsoft, Esri Community Maps contributors, Map layer by Esri

# Adran 1 y llwybr:
## Bae Caernarfon – Lleoliad glanfa

**Mae adran 1 y llwybr yn canolbwyntio ar y dirfa; dyma'r pwynt lle mae'r ceblau HVDC ar y môr yn cysylltu â'r ceblau HVDC tanddaearol ar y tir.**


Byddai'r cysylltiad hwn yn cael ei wneud drwy borth cysylltu trosiannol, siambr neu strwythur parhaol o dan y ddaear lle mae'r ddau gebl yn cael eu huno.

Yn dilyn asesiad dichonoldeb cychwynnol, a oedd yn cynnwys amrywiaeth o ystyriaethau ar y môr ac ar y tir, yn ogystal ag ystyriaethau peirianyddol ac amgylcheddol, rydyn ni'n gofyn am farn ar dri lleoliad posib ar gyfer glanfa.

Mae ein hasesiad dichonoldeb cychwynnol yn awgrymu mai Lleoliad Glanfa B yw'r opsiwn sy'n cael ei ffafrio ar hyn o bryd.

Mae Lleoliad Glanfa A hefyd yn cael ei ystyried fel opsiwn arall posib a byddai'n cael ei ddatblygu os bydd rhagor o waith ar y môr a gwaith peirianyddol yn dangos nad yw Lleoliad Glanfa B yn ymarferol mwyach.

Ystyrir bod Lleoliad Glanfa C yn ymarferol yn dechnegol ond nid yw'n cael ei ffafrio i'r un graddau â Lleoliadau Glanfa A a B wrth ei asesu yn erbyn ystyriaethau ar y tir, peirianyddol ac amgylcheddol.




Sources: Map data © OpenStreetMap contributors, Microsoft, Esri Community Maps contributors, Map layer by Esri

Mae rhagor o wybodaeth bob Lleoliad Glanfa ar gael yn y Ddogfen Ymgynghoriad Cam 1 ac yn y ddogfennau technegol ategol.

Gallwch weld y ddogfennau hyn yn **nationalgrid.com/westernlink2**, yn ein digwyddiadau gwybodaeth wyneb yn wyneb neu mewn mannau gwybodaeth lleol.

# **Adran 1 y llwybr:** Bae Caernarfon – Lleoliad glanfa


**C1. Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar adran 1 y llwybr, gan gynnwys y pwyntiau isod?**


- Eich gwybodaeth leol am y rhan hon o arfordir Gwynedd.
- Eich barn am y lleoliad mwyaf priodol ar gyfer glanfa.
- Nodweddion lleol sy'n bwysig i chi ac y gallai fod effaith arnynt.
- Heriau a/neu ystyriaethau mynediad neu amgylcheddol.
- Effaith bosib gweithgareddau adeiladu.
- Unrhyw beth arall y dylem ei ystyried wrth i ni ddatblygu ein cynigion ymhellach.

# Adran 2 y llwybr:
## Bae Caernarfon i Bontnewydd – llwybr ceblau

**Mae'r rhan hon o'r llwybr yn cwmpasu hanner cyntaf y coridor rydyn ni'n ei ffafrio, sy'n rhedeg o'r tri lleoliad glanfa a nodwyd i Bontnewydd.**


Yn yr ardal hon, rydyn ni'n cynnig llwybr cebl HVDC tanddaearol.




Sources: Map data © OpenStreetMap contributors, Microsoft, Esri Community Maps contributors, Map layer by Esri


# **Adran 2 y llwybr:** Bae Caernarfon i Bontnewydd – llwybr ceblau




Sources: Map data © OpenStreetMap contributors, Microsoft, Esri Community Maps contributors, Map layer by Esri

Edrychwch ar y ddogfen ymgynghoriad Cam 1 a'r ddogfennau technegol ategol i gael rhagor o wybodaeth am ein cynigion yn yr adran hon o'r llwybr, gan gynnwys sut roedden ni wedi dewis y coridor(au) llwybr ceblau sy'n cael ei ffafrio ar hyn o bryd.

Gallwch weld y ddogfennau hyn yn **nationalgrid.com/westernlink2**, yn ein digwyddiadau gwybodaeth wyneb yn wyneb neu mewn mannau gwybodaeth lleol.



# Adran 2 y llwybr: Bae Caernarfon i Bontnewydd – llwybr ceblau


**C2. Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar adran 2 y llwybr, gan gynnwys y pwyntiau isod?**


- Y coridor(au) llwybr ceblau sy'n cael ei ffafrio gennym ar hyn o bryd.
- Sut rydyn ni wedi dewis y coridor(au) hwn.
- Ein hardal raddedig sy'n rhoi manylion yr opsiynau llwybr ceblau.
- Eich gwybodaeth leol am y llwybr mwyaf priodol o fewn coridor(au) y ceblau i leoli'r cebl tanddaearol newydd.
- Nodweddion ac effeithiau lleol sy'n bwysig i chi.
- Ystyriaethau mynediad neu amgylcheddol.
- Effaith bosib gweithgareddau adeiladu.
- Unrhyw beth arall y dylem ei ystyried wrth i ni ddatblygu ein cynigion ymhellach.

# Adran 3 y llwybr:
## Bontnewydd i Bentir – llwybr ceblau

**Mae'r rhan o'r coridor sy'n cael ei ffafrio ar hyn o bryd yn dechrau yn Bontnewydd ac yn rhedeg i'r gogledd-ddwyrain gan basio Caernarfon a Bethel, ac yn gorffen yn yr is-orsaf 400 kV bresennol ym Mhentir.**


Yn yr ardal hon, rydym yn cynnig llwybr cebl Cerrynt Uniongyrchol Foltedd Uchel (HVDC) tanddaearol.




Sources: Map data © OpenStreetMap contributors, Microsoft, Esri Community Maps contributors, Map layer by Esri


# **Adran 3 y llwybr:** Bontnewydd i Bentir – llwybr ceblau




Sources: Map data © OpenStreetMap contributors, Microsoft, Esri Community Maps contributors, Map layer by Esri

Edrychwch ar y ddogfen ymgynghoriad Cam 1 a'r ddogfennau technegol ategol i gael rhagor o wybodaeth am ein cynigion yn yr adran hon o'r llwybr, gan gynnwys sut roedden ni wedi dewis y coridor sy'n cael ei ffafrio ar hyn o bryd.

Gallwch weld y ddogfennau hyn yn **nationalgrid.com/westernlink2**, yn ein digwyddiadau gwybodaeth wyneb yn wyneb neu mewn mannau gwybodaeth lleol.



# **Adran 3 y llwybr:** Bontnewydd i Bentir – llwybr ceblau

**C3. Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar adran 3 y llwybr, gan gynnwys y pwyntiau isod?**


- Y coridor(au) llwybr ceblau sy'n cael ei ffafrio gennym ar hyn o bryd.
- Sut rydyn ni wedi dewis y coridor(au) hwn.
- Ein hardal raddedig sy'n rhoi manylion yr opsiynau llwybr ceblau.
- Eich gwybodaeth leol am y lleoliad mwyaf priodol o fewn coridor y ceblau i leoli'r cebl tanddaearol newydd.
- Nodweddion ac effeithiau lleol sy'n bwysig i chi.
- Ystyriaethau mynediad neu amgylcheddol.
- Effaith bosib gweithgareddau adeiladu.
- Unrhyw beth arall y dylem ei ystyried wrth i ni ddatblygu ein cynigion ymhellach.


# Adran 4 y llwybr:
## Pentir – Parthau lleoli'r orsaf trawsnewid a pharth estyniad is-orsaf bresennol Pentir

**Rydyn ni'n cynnig un orsaf trawsnewid newydd yn agos i is-orsaf bresennol Pentir. Rydyn ni wedi nodi dau barth lleoli posib ar gyfer yr orsaf trawsnewid hon ar sail ein hasesiadau cychwynnol, gan ffafrio un o'r parthau lleoli.**

Gallwch weld y ddau barth lleoli ar y map isod, gan gynnwys yr opsiwn rydyn ni'n ei ffafrio. Parth lleoli Dwyrain Pentir yw'r parth lleoli rydyn ni'n ei ffafrio ar hyn o bryd ar gyfer yr orsaf trawsnewid, gydag ardal i'r de o'r parth hwnnw wedi'i nodi fel y lleoliad sy'n cael ei ffafrio gennym yn y parth hwn ar hyn o bryd.


Rydyn ni hefyd wedi dod o hyd i leoliad ar gyfer yr estyniad angenrheidiol i is-orsaf 400 kV bresennol Pentir.





Sources: Map data © OpenStreetMap contributors, Microsoft, Esri Community Maps contributors, Map layer by Esri

# Delweddau dangosol yr orsaf trawsnewid



Edrychwch ar y ddogfen ymgynghoriad Cam 1 a'r ddogfennau technegol ategol i gael rhagor o wybodaeth am ein cynigion yn yr adran hon o'r llwybr, gan gynnwys sut roedden ni wedi dewis y coridor sy'n cael ei ffafrio ar hyn o bryd.

Gallwch weld y ddogfennau hyn yn **nationalgrid.com/westernlink2**, yn ein digwyddiadau gwybodaeth wyneb yn wyneb neu mewn mannau gwybodaeth lleol.



# **Adran 4 y llwybr:** Pentir – Parthau lleoli'r orsaf trawsnewid a pharth estyniad is-orsaf bresennol Pentir

**C4. Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar adran 4 y llwybr, gan gynnwys y pwyntiau isod?**

- Yn benodol mewn perthynas â'n dau barth lleoli ar gyfer yr orsaf trawsnewid, sef:
  - Dwyrain Pentir (sy'n cael ei ffafrio ar hyn o bryd) neu
  - Gorllewin Pentir.
- Lleoliad posib yr orsaf trawsnewid o fewn parth lleoli'r orsaf trawsnewid sy'n cael ei ffafrio ar hyn o bryd (Dwyrain Pentir).
- Hefyd, yn benodol, dyluniad yr orsaf trawsnewid yn ein ddogfen ymgynghoriad Cam 1, ac i ba raddau y mae'r rhain yn ystyried daearyddiaeth leol a dyluniadau ac ymddangosiad adeiladau lleol.
- Ein hestyniad arfaethedig i is-orsaf bresennol Pentir.
- Eich gwybodaeth leol am y lleoliad mwyaf priodol yn y coridor ceblau i leoli'r cebl tanddaearol newydd o barthau lleoli'r orsaf trawsnewid i is-orsaf bresennol Pentir.
- Nodweddion ac effeithiau lleol sy'n bwysig i chi.
- Ystyriaethau mynediad neu amgylcheddol.
- Effaith bosib gweithgareddau adeiladu.
- Unrhyw beth arall y dylem ei ystyried wrth i ni ddatblygu ein cynigion ymhellach.

# Coridor ceblau ger y lan

**Mae llwybr arfaethedig ceblau ger y lan ar gyfer Cyswllt Gorllewinol 2, sy'n ymestyn 12 morfilltir o arfordir Cymru, wedi cael ei ddatblygu'n ofalus i gyd-fynd â lleoliadau glanfa ac osgoi ardaloedd ecolegol bwysig, gan gynnwys safleoedd sydd wedi'u dynodi'n amgylcheddol. Pan fydd angen i ni ryngweithio â'r ardaloedd hyn, byddwn yn lleihau'r effeithiau posib lle bynnag y bo modd.**

Mae hyn wedi cael ei gydbwyso â'r angen i nodi llwybrau sy'n dechnegol ymarferol, yn ogystal ag ystyried y seilwaith presennol a gweithgareddau defnyddwyr a diwydiannau morol eraill.

Edrychwch ar y ddogfen ymgynghoriad Cam 1 a'r ddogfennau technegol ategol i gael rhagor o wybodaeth am ein cynigion yn yr adran hon o'r llwybr, gan gynnwys sut roedden ni wedi dewis y coridor sy'n cael ei ffafrio ar hyn o bryd.

Gallwch weld y ddogfennau hyn yn **nationalgrid.com/westernlink2**, yn ein digwyddiadau gwybodaeth wyneb yn wyneb neu mewn mannau gwybodaeth lleol.




Sources: Map data © OpenStreetMap contributors, Microsoft, Esri Community Maps contributors, Map layer by Esri

# Coridor ceblau ger y lan

**C5. A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y coridor ceblau arfaethedig ger y lan?**

# Cynigion alltraeth ehangach

**Mae'r llwybr ceblau alltraeth ehangach arfaethedig ar gyfer Cyswllt Gorllewinol 2 yn ymestyn o derfyn gogleddol yr ardal ger y lan (gweler tudalen 9) hyd at derfyn deheuol moroedd tiriogaethol yr Alban.**

Mae wedi cael ei ddatblygu'n ofalus i gyd-fynd â gwaith SP Energy Networks ar y môr ac i osgoi ardaloedd ecolegol bwysig, gan gynnwys safleoedd sydd wedi'u dynodi'n amgylcheddol. Pan fydd angen i ni ryngweithio â'r ardaloedd hyn, byddwn yn lleihau'r effeithiau posib lle bynnag y bo modd.

Mae hyn wedi cael ei gydbwyso â'r angen i nodi llwybrau sy'n dechnegol ymarferol, yn ogystal ag ystyried y seilwaith presennol a gweithgareddau defnyddwyr a diwydiannau morol eraill.

**C6. Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar ein cynigion alltraeth ehangach ar hyn o bryd ar gyfer Cyswllt Gorllewinol 2?**

**C7. Oes gennych chi unrhyw sylwadau cyffredinol eraill am gynigion Cyswllt Gorllewinol 2?**

# Amdanoch chi

Byddem yn ddiolchgar pe baech chi'n ateb y cwestiynau demograffig canlynol, ond does dim rhaid.

Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a gawn i helpu i ddeall a yw ein hymgynghoriad wedi bod yn ddefnyddiol i bobl o wahanol gefndiroedd ac sydd â gwahanol ofynion, a dim ond yn unol â'n Datganiad Preifatrwydd Data, fel y nodir yn nes ymlaen yn y ffurflen hon.

Efallai y byddwn yn cyhoeddi crynodeb o'r canlyniadau, ond ni fyddai unrhyw wybodaeth am unigolyn yn cael ei datgelu.

Mae'r atebion rydych chi'n eu rhoi i rai o'r cwestiynau hyn yn cael eu diffinio fel 'data categori arbennig'. Os ydych chi'n cytuno i ddarparu'r wybodaeth hon, gallwch dynnu eich caniatâd i ni ei defnyddio yn ein hadroddiadau yn ôl ar unrhyw adeg. I dynnu eich caniatâd yn ôl, e-bostiwch ni ar **WesternLink2@nationalgrid.com**

**C8. Sut byddech chi'n disgrifio eich diddordeb yn Cyswllt Gorllewinol 2?**

Dewiswch bob un sy'n berthnasol

- ☐ Preswylydd lleol
- ☐ Cynrychiolydd lleol (h.y. Cynghorydd / Aelod o'r Senedd / Aelod o Senedd y DU)
- ☐ Tirfeddiannwr, tenant neu feddiannydd y gallai hyn effeithio arno
- ☐ Perchennog busnes lleol
- ☐ Yn ymweld â'r ardal yn rheolaidd
- ☐ Aelod o grŵp buddiant lleol (rhowch fanylion isod)
- ☐ Cynrychiolydd sefydliad statudol (rhowch fanylion isod)
- ☐ Arall (rhowch fanylion isod)

**C9. Pa rywedd ydych chi?**

- ☐ Gwrywaidd
- ☐ Benywaidd
- ☐ Anneuaidd
- ☐ Mae'n well gen i beidio â dweud

**C10. Ydych chi'n ystyried eich hun yn berson anabl?**

- ☐ Ydw
- ☐ Nac ydw
- ☐ Mae'n well gen i beidio â dweud

## C11. Sut byddech chi'n disgrifio eich cefndir ethnig?

- ☐ Gwyn Cymreig, Seisnig, Albanaidd, Gwyddelig Gogledd Iwerddon neu Brydeinig
- ☐ Gwyddelig
- ☐ Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig
- ☐ Gwyn a Du Caribïaidd
- ☐ Gwyn a Du Affricanaidd
- ☐ Du Affricanaidd
- ☐ Du Caribïaidd
- ☐ Du Prydeinig
- ☐ Gwyn ac Asiaidd
- ☐ Asiaidd neu Asiaidd Brydeinig
- ☐ Indiaidd
- ☐ Pacistanaidd
- ☐ Bangladeshaidd
- ☐ Tsieineaidd
- ☐ Arabaidd

Unrhyw gefndir Gwyn arall (rhowch fanylion isod)

Unrhyw gefndir Asiaidd arall (rhowch fanylion isod)

Unrhyw gefndir Cymysg/Aml-ethnig arall (rhowch fanylion isod)

Unrhyw gefndir Du, Affricanaidd neu Garibïaidd arall (rhowch fanylion isod)

Unrhyw grŵp ethnig arall (rhowch fanylion isod)

- ☐ Mae'n well gen i beidio â dweud

## C12. Faint yw eich oed?

- ☐ Dan 16
- ☐ 16-24
- ☐ 25-34
- ☐ 35-44
- ☐ 45-54
- ☐ 55-64
- ☐ 65+
- ☐ Mae'n well gen i beidio â dweud

# Eich manylion cyswllt

Dim ond yn unol â'n Datganiad Preifatrwydd Data y byddwn yn defnyddio'r manylion hyn, fel y nodir yn nes ymlaen yn y ffurflen hon, sy'n cynnwys cysylltu â chi i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am y cynigion. Does dim rhaid i chi lenwi'r adran hon, ond os gallech chi gynnwys rhan gyntaf eich cod post, byddai hynny'n ddefnyddiol i ni er mwyn deall lleoliad yr adborth sy'n ein cyrraedd.

| | |
|---|---|
| Teitl: | Enw cyntaf: |
| Cyfenw: | |
| Sefydliad / grŵp (os ydych chi'n ymateb ar ran un): | |
| Cyfeiriad: | |
| | |
| | Côd post: |
| Cyfeiriad e-bost: | |

☐ Ticiwch yma os hoffech chi gael y wybodaeth ddiweddaraf am ein cynigion dros e-bost.

Diolch am roi o'ch amser i lenwi ein harolwg. Drwy gyflwyno'r ffurflen adborth hon, rydych chi'n rhoi caniatâd i ni ddadansoddi a chynnwys eich ymateb yn ein hadroddiad ymgynghori a'n cais cynllunio.

# Camau nesaf

**Daw'r ymgynghoriad Cam 1 hwn i ben am 11:59yh nos Fawrth 21 Gorffennaf 2026.**

Rhaid i'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad gyrraedd cyn i'r ymgynghoriad ddod i ben. Bydd ymatebion drwy'r post yn cael eu derbyn hyd at wythnos ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben os ydynt wedi cael eu hanfon yn ystod y cyfnod ymgynghori.

**Yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, byddwn yn;**

- Ystyried yr holl adborth perthnasol a gafwyd wrth fireinio ein cynigion.
- Parhau i drafod gyda thirfeddianwyr yr effeithir arnynt.
- Parhau i friffio cynrychiolwyr etholedig lleol.
- Parhau i weithio gydag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid allweddol eraill.
- Parhau i gynnal arolygon amgylcheddol ac astudiaethau technegol.
- Darparu diweddariadau i'r cylchlythyr.
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rhai sydd wedi gofyn am gael y diweddaraf am ein cynigion. Gallwch gofrestru i gael y wybodaeth ddiweddaraf yn **nationalgrid.com/westernlink2**.
- Postio'r wybodaeth ddiweddaraf ar wefan ein prosiect – **nationalgrid.com/westernlink2**.
- Diweddaru ein ap Grid:Engage.

Yn 2027 byddwn yn cynnal ymgynghoriad Cam 2, a fydd yn statudol, lle byddwn yn cyflwyno ein cynigion mwy datblygedig ar gyfer Cyswllt Gorllewinol 2. Bydd yr ymgynghoriad Cam 2 hwn yn cael ei gynnal cyn gwneud cais cynllunio ar gyfer y prosiect.

# Cysylltu â ni

E-bost:
**WesternLink2@nationalgrid.com**

Rhadffôn:
**0800 156 0706**

Gwefan:
**nationalgrid.com/westernlink2**

Post: **FREEPOST W LINK 2**
(nid oes angen stamp na manylion cyfeiriad pellach)

## Gwybodaeth i dirfeddianwyr

**Os ydych chi'n dirfeddiannwr neu os oes gennych chi fuddiant mewn unrhyw dir y gallai ein cynigion effeithio arno, gallwch gysylltu â thîm Tiroedd Cyswllt Gorllewinol 2 gan ddefnyddio'r manylion isod.**

Gall y tîm ddarparu gwybodaeth, trafod eich amgylchiadau penodol, ac ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych chi. Mae croeso i chi hefyd roi adborth ar unrhyw ran o'r prosiect fel rhan o'r ymgynghoriad hwn.

Rhadffôn:
**0333 038 5710**

E-bost:
**wl2@dalcourmaclaren.com**

Post:
**FREEPOST W LINK 2**

# Datganiad preifatrwydd data


Byddwn yn defnyddio eich data personol sy'n cael ei gasglu drwy'r ymgynghoriad hwn at nifer o ddibenion, gan gynnwys:

- dadansoddi eich adborth i'r ymgynghoriad.
- llunio adroddiad adborth ymgynghori ar sail ein dadansoddiad o'r ymatebion (ni fydd unigolion yn cael eu henwi yn yr adroddiad).
- ysgrifennu atoch gyda'r wybodaeth ddiweddaraf am ganlyniadau'r ymgynghoriad a datblygiadau eraill (os nad ydych chi'n dymuno i ni gysylltu â chi, gallwch chi gyflwyno'r ffurflen yn ddienw).
- cadw cofnodion cyfredol o'n gohebiaeth ag unigolion a sefydliadau.

Bydd unrhyw wybodaeth bersonol rydych chi'n ei chynnwys yn y ffurflen hon yn cael ei thrin a'i defnyddio gan (neu ar gael i) y derbynwyr canlynol er mwyn cofnodi, dadansoddi ac adrodd ar yr adborth a gawn:

- National Grid
- SP Energy Networks
- y sawl sy'n penderfynu ar ein cais am gydsyniad
- ein cynghorwyr cyfreithiol
- ymgynghorwyr sy'n gweithio ar ran National Grid.

Pan fyddwch yn rhoi adborth fel rhan o'r ymgynghoriad hwn sy'n berthnasol i brosiectau eraill National Grid, bydd yn cael ei rannu â phrosiectau perthnasol eraill er mwyn ei ystyried yn briodol.



## Cysylltwch â ni

Cysylltwch â ni os oes gennych unrhyw gwestiynau am ein cynigion ar gyfer Cyswllt Gorllewinol 2.

**0800 156 0706**
(Mae'r llinellau ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener, 9yb–5.30yp).
Sylwer nad ydym yn derbyn adborth dros y ffôn.
Llenwch ffurflen adborth neu ysgrifennwch atom.

**WesternLink2@nationalgrid.com**

**FREEPOST W LINK 2**
(nid oes angen stamp na manylion cyfeiriad pellach)